Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales

Hyfforddiant Addasu i Newid Hinsawdd a Chydnerthedd

Modiwl 8 Cwsmeriaid a Defnyddwyr

Perthnasoedd cwsmeriaid sy'n ymwybodol o'r hinsawdd ac addasiadau wedi'u harwain gan ddefnyddwyr i gyfleoedd newid hinsawdd

Tabl Cynnwys

Cynnwys	2
Byrfoddau	3
Croeso i'r Hyfforddiant Addasu i Newid Hinsawdd a Chydnerthedd	4
Sut i ddefnyddio'r modiwlau hyfforddiant	5
Sut i gael mynediad at y rhestrau gwirio, y templedi, a'r canllawiau cam wrth gam	6
Perthnasoedd â Chwsmeriaid sy'n Ymwybodol o'r Hinsawdd	7
Ystyried risgiau hinsawdd cwsmeriaid	7
Rheoli perthnasoedd â chwsmeriaid yn ystod digwyddiad hinsawdd annisgwyl	10
Amlygu eich ymagwedd sy'n ymwybodol o'r hinsawdd i gwsmeriaid	13
Defnyddwyr a Newid Hinsawdd – Risgiau a Chyfleoedd	15
Dylanwadau'r hinsawdd ar ymddygiad defnyddwyr	15
Tymhorau sy'n newid	16
Gwyliau gartref	17
Diogelu Defnyddwyr a'ch Enw Da	19
Risgiau cynyddol o weddillion a halogion mewn deunyddiau crai	19
Cyfleoedd newydd i arloesi	20
Ymgysylltu â defnyddwyr sy'n ymwybodol o'r hinsawdd	23
Myfyrdodau Terfynol	26
Cadw ffocws parhaus ar faterion sy'n ymwneud â'r hinsawdd	26
Cyflawni sector gweithgynhyrchu bwyd a diod yng Nghymru sy'n ymwybodol o'r hinsawdd ac yn gydnerth	26
Cyfeiriadau	27

Delwedd y clawr blaen: Y traeth a'r promenâd gorlawn yn Llandudno, Conwy ar ddiwrnod o'r haf yn ystod cyfnod o dywydd poeth ym mis Gorffennaf. Awdur: travellinglight - Ffynhonnell: Alamy

Y ddelwedd hon:
Awdur: Volodymyr / stock.adobe.com

Byrfoddau

Gweler rhestr o fyrfoddau a ddefnyddir yn yr hyfforddiant hwn isod:

AHDB	Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth
CCACCP	Dadansoddiad Ymwybodol o'r Hinsawdd a Phwyntiau Hinsawdd Critigol
CCJ	Dyfarniad Llys Sirol
CCRAs	Asesiadau o Risgiau Newid Hinsawdd
CMA	Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd y Deyrnas Unedig
COSHH	Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd
CO2	Carbon Deuocsid
C3S	Gwasanaeth Newid Hinsawdd Copernicus yr Undeb Ewropeaidd
ENA	Cymdeithas Rhwydwaith Ynni
EPD	Datblygu Cynnyrch Presennol
GDPR	Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data
GHG	Nwy Tŷ Gwydr
HACCP	Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol
ICT	Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu
INNS	Rhywogaethau Anfrodorol Ymledol
IPCC	Y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd
ISSB	Bwrdd Safonau Cynaliadwyedd Rhyngwladol
MPRN	Rhifau Cyfeirnod Pwynt Mesurydd
NPD	Datblygu Cynnyrch Newydd
NRW	Cyfoeth Naturiol Cymru
ONS	Swyddfa Ystadegau Gwladol y Deyrnas Unedig
RCPs	Llwybrau Crynoadau Cynrychioliadol
TCFD	Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol yn Gysylltiedig â'r Hinsawdd
UK SDS	Safonau Datgelu Cynaliadwyedd y Deyrnas Unedig
UKCCC	Pwyllgor Newid Hinsawdd y Deyrnas Unedig
UNEP	Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig
WMO	Sefydliad Meteorolegol y Byd
WRAP	Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau

Croeso i'r Hyfforddiant Addasu i Newid Hinsawdd a Chydnerthedd

Nod y modiwlau hyfforddiant yw annog busnesau i ddod yn ymwybodol o'r hinsawdd yn eu gweithrediadau bob dydd trwy ddarparu cymorth ymarferol i feithrin y sgiliau a'r ymagweddau sydd eu hangen i ddelio'n llwyddiannus â digwyddiadau anrhagweladwy.



Trwy gydnabod y risgiau a'r cyfleoedd sy'n dod yn sgil newid hinsawdd a gwneud addasiadau tra ystyriol, gall eich busnes gryfhau ei gydnerthedd i ddelio â sociau o fewn eich cadwyni cyflenwi, lleihau neu osgoi effeithiau negyddol a manteisio ar y cyfleoedd a allai godi.

Dyma'r wythfed o 8 modiwl rydyn ni'n gobeithio y byddwch chi'n eu cael yn graff ac yn ddefnyddiol.

Sut i ðdefnyddio'r modiwl hyfforddiant hwn

Cynlluniwyd y modiwlau hyfforddiant fel canllawiau addysgiadol i'ch helpu i asesu'ch busnes yng nghyd-destun newid hinsawdd.

Er bod pob menter bwyd a diod yn unigryw, rydym yn gobeithio trwy ddewis a gweithredu ar y modiwlau sydd fwyaf perthnasol i'ch busnes chi, y byddwch yn creu fframwaith i benderfynu ar yr addasiadau sydd eu hangen i wneud eich busnes yn fwy cydnerth i newid hinsawdd, nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r modiwlau hyfforddiant wedi'u strwythuro yn y ffordd ganlynol:

Modiwl 1: Cyflwyniad i Addasu i Newid Hinsawdd

Module 2: Cyflwyno Risg a Rheoli Newid ac ymagwedd CCACCP

(Dadansoddiad Ymwybodol o'r Hinsawdd a Phwyntiau Hinsawdd Critigol)

Modiwl 3: Safleoedd a Mynediad

Modiwl 4: Gweithgynhyrchu a Chynhyrchu Bwyd

Modiwl 5: Cadwyni Cyflenwi a Mewnbynnau Busnes

Modiwl 6: Ystyriaethau Cyllid a Chyfreithiol

Modiwl 7: Staff a Darparwyr Gwasanaethau

Modiwl 8: Cwsmeriaid a Defnyddwyr

Trwy gydol y modiwlau, byddwch yn dod o hyd i enghreifftiau, cyfeiriadau a dolenni at restrau gwirio a thempledi golygadwy i'ch helpu i asesu a gweithredu'r newidiadau dymunol yn eich busnes.

Sut i gael mynediad at y rhestrau gwirio, y templedi a'r canllawiau cam wrth gam

Trwy glicio ar y dolenni a ddangosir trwy gydol y modiwlau hyfforddiant, gallwch gael mynediad at y rhestrau gwirio, y templedi neu'r canllawiau cam wrth gam o'ch dewis chi.

Bydd y ddolen yn mynd â chi at leoliad Dropbox lle bydd gennych chi nifer o ddewisiadau:

1. Os oes gennych chi gyfrif Dropbox eisoes, gallwch chi fewngofnodi i hwn.
2. Os ydych chi'n dymuno creu cyfrif Dropbox, mae'r opsiwn hwn ar gael i chi.
3. Os ydych chi'n syml yn dymuno cael mynediad at y ddogfen, cliciwch ar y saeth Lawrlwytho i'w lawrlwytho i'ch dyfais.



Perthnasoedd â Chwsmeriaid sy'n Ymwybodol o'r Hinsawdd

Mae dau brif ddimensiwn o ran ystyried sut gallai newid hinsawdd effeithio ar eich perthnasoedd â chwsmeriaid:

1

Pe byddai'ch cwsmeriaid yn ddioddef digwyddiad hinsawdd annisgwyl
Sut gallai'ch busnes gael ei effeithio pe byddai un neu fwy o'ch cwsmeriaid allweddol yn dioddef digwyddiad hinsawdd annisgwyl?

2

Pe byddai'ch busnes yn ddioddef digwyddiad hinsawdd annisgwyl
Sut byddech chi'n rheoli eich perthnasoedd â chwsmeriaid allweddol pe byddai digwyddiad hinsawdd annisgwyl yn digwydd i'ch busnes?

Isod, edrychwn ar syniadau ac enghreifftiau ar gyfer rheoli'r ddau fath o amgylchiadau hyn.

Ystyried risgiau hinsawdd eich cwsmeriaid

Yn yr un modd ag yr ydym wedi cymhwyso ymagwedd sy'n ymwybodol o'r hinsawdd i'ch safleoedd, eich llinellau cynhyrchu, eich cadwyni cyflenwi a'ch cyllid, gallwn ymestyn y meddylfryd hwn i'ch cwsmeriaid a'ch strategaethau tyfu gwerthiant.

Mae newid hinsawdd yn effeithio ar y cwsmeriaid sy'n ffurfio'r allfeydd gwerthu ar gyfer eich cynhyrchion bwyd neu ddiod. Caiff eu busnesau nhw eu heffeithio hefyd os bydd digwyddiadau hinsawdd yn digwydd ac mae'n werth ystyried yr effeithiau canlyniadol ar eich cwmni eich hun.

Depos a chanolfannau cyflawni archebion

Asiantau allforio a lleoliadau cwsmeriaid

Lleoliadau cwsmeriaid manwerthu

Lleoliadau cwsmeriaid busnes-i-fusnes

Lleoliadau cwsmeriaid y sector cyhoeddus

Lleoliadau cwsmeriaid lletygarwch

Gellir cymhwyso dull CCACCP o asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd i'ch cwsmeriaid chi:

- Rhestrwch eich prif gwsmeriaid a'u lleoliadau allweddol: er enghraifft, eu storfeydd dosbarthu, warysau, siopau neu eu pencadlys; hefyd, safleoedd gweithgynhyrchu os ydynt yn gwsmer busnes-i-fusnes.
- Nawr, ychwanegwch werthoedd nodweddiadol y cwsmeriaid hynny at eich rhestr; gallai'r gwerthoedd hyn gael eu mynegi mewn termau ariannol neu ar ffurf canran o'ch allbynnau gwerthiant, refeniw a phroffidioldeb.
- Nodwch unrhyw batrymau tymhorol a fyddai'n cael effaith sylweddol ar eich llif arian ar adeg benodol o'r flwyddyn, pe byddai archebion yn gostwng neu'n cael eu canslo hyd yn oed oherwydd problemau hinsawdd.
- Plotiwch leoliadau'r cwsmeriaid allweddol hyn ar fap i asesu a ydynt wedi'u lleoli'n eang neu wedi'u clystyru mewn ardaloedd penodol.
- Ar ôl nodi ble maent wedi'u clystyru, ystyriwch ba risgiau a allai fod yn gyffredin yn yr ardaloedd hynny. Beth yw eu risg llifogydd, er enghraifft?

Wedi i chi gynnal yr asesiad risg hwn, yna gallech ystyried trafod cynlluniau wrth gefn â'ch cwsmeriaid, y gellid eu rhoi ar waith pe byddai digwyddiad hinsawdd.

Meddyliwch am y risgiau i weithrediadau eich cwsmeriaid wrth i chi gynyddu eich sylfaen werthu. Efallai na fyddai'n ddoeth cael canran rhy uchel o gwsmeriaid mewn ardaloedd y mae digwyddiadau hinsawdd yn fwy tebygol o effeithio arnynt.

Os oes cyfran uchel o'ch refeniw yn dibynnu ar leoliad bregus, efallai y byddwch yn penderfynu peidio â cheisio cael mwy o gwsmeriaid yno ac ehangu lleoliadau eich cwsmeriaid targed.

Gellid ystyried yr ymagwedd hon sy'n ymwybodol o'r hinsawdd, gan gynnwys chwilio am fwy o amrywiaeth o ran lleoliadau cwsmeriaid, yn ein cynlluniau caffael cwsmeriaid ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod, er mwyn diogelu eich busnes eich hun.

Cafodd archfarchnad Morrisons yn Aberystwyth ei gorlifo gan afon Rheidol, a oedd wedi chwyddo ar ôl deuddydd o law trwm. Gyda llanw uchel hefyd yn gorfodi'r dyfroedd yn ôl, torrodd yr afon ei glannau gan orlifo ardaloedd isel o siopau a thai yn yr ardal. Ffynhonnell: Alamy

Mapio risgiau hinsawdd cwsmeriaid

Mae gwybodaeth am risg hinsawdd ar gael trwy chwiliadau ar-lein, fel sgoriau risg yn ôl sir, rhestrau bregusrwydd gwledydd (gweler Modiwl 5: Cadwyni Cyflenwi a Mewnbynnau Busnes) ac amrywiaeth o fapiau rhyngweithiol fel y rhai gan Climate Central, Fathom a Friends of the Earth.

Mae gwefan Climate Central yn enghraifft o fapiau rhyngweithiol lle gallwch archwilio'r risg llifogydd mewn lleoliadau amrywiol.



Mae Metroblue yn darparu gwybodaeth am newid hinsawdd y gellir ei chwilio yn ôl lleoliad, gan gynnwys graffiau tymheredd a glawiad blynyddol fel yr enghreifftiau hyn o Ynys Môn ac Abertawe.



Graffiau wedi'u hatgynhyrchu o Metroblue dan delerau trwyddedu CC-BY-ND

Enghraifft arall o wybodaeth sydd ar gael trwy chwiliadau ar-lein yw'r graff isod, sydd wedi'i greu o adroddiad a gyhoeddwyd gan XDI, sy'n marchnata gwasanaethau risg hinsawdd ffisegol.

Mae rhanbarthau'r DU wedi'u rhestru ar yr echelin lorweddol o 1 i 50, ar sail eu safle byd-eang fel y rhai sydd â'r risg fwyaf wrth eu hasesu yn ôl cyfanswm neu lefel 'gyfanredol' y difrod i adeiladau yn yr ardal honno oherwydd newid hinsawdd.

Mae data wedi'i ddadansoddi er 1950 a'i ragamcanu hyd 2050 ac mae'r bariau'n dangos y cynnydd canrannol rhagamcanol mewn difrod yn gysylltiedig â'r hinsawdd a ragwelir yn y rhanbarth, gan roi syniad o'r risgiau cyffredinol y caiff busnesau yn yr ardaloedd hynny eu haflonyddu gan ddifrod hinsawdd. Er enghraifft, er bod Inverness yn 42fed yn y tabl o leoedd lle cofnodwyd difrod yn gysylltiedig â'r hinsawdd ar hyn o bryd, wrth ragamcanu'r risg, rhagwelir y bydd yn cynyddu 237%.

Felly, wrth ystyried ble i dargedu caffael cwsmeriaid, efallai na fyddwch am ddibynnu'n fawr ar werthiannau mewn ardaloedd y rhagwelir eu bod mewn perygl uchel, fel Inverness, Swydd Henffordd a Swydd Gaerwrangon. Ar y cyfan, rhagwelir y bydd risgiau difrod yn gysylltiedig â'r hinsawdd yng Nghymru gyfan yn gymharol uchel, hefyd.



Ffynhonnell : Data a echdynnwyd o restr Risg Hinsawdd Domestig Gros XDI, fel yr adroddwyd arno yn The Independent (Chwefror 2023)

Rheoli perthnasoedd â chwsmeriaid yn ystod digwyddiad hinsawdd annisgwyl

Efallai bod gennych gynllun gweithredu/cyfathrebu eisoes i reoli disgwyliadau cwsmeriaid pe byddai argyfwng yn codi yn eich busnes, yn ogystal â gweithdrefnau tynnu a galw cynnyrch yn ôl.

Dysgodd llawer o fusnesau wersi gwerthfawr am gyfathrebu'n effeithiol â chwsmeriaid yn ystod pandemig Covid-19, a helpodd i gynnal perthnasoedd cryf a diogelu llinellau gwerthu. Os oedd eich busnes yn masnachu yn ystod y cyfnod cythryblus hwn, ystyriwch beth aeth yn dda, beth nad aeth cystal a sut gallech chi adeiladu ar hyn?

Mae bodloni anghenion eich cwsmeriaid mor hanfodol i lwyddiant eich busnes fel na fyddai eich ymagwedd sy'n ymwybodol o'r hinsawdd yn gyflawn nac yn gadarn heb ystyried cyfathrebu a pherthnasoedd â chwsmeriaid.

Pam paratoi cynllun cyfathrebu â chwsmeriaid?

Yn ystod digwyddiad hinsawdd annisgwyl sy'n cael effaith negyddol ar eich gallu i wasanaethu eich cwsmeriaid, gall popeth deimlo'n eithaf di-drefn.

Byddwch yn brysur yn ymdrin â'r sefyllfa wrth iddi esblygu ac efallai na fyddwch yn sicr sut bydd pethau'n datblygu a beth fydd y goblygiadau ar gyfer parhad ac adferiad eich busnes.

Fodd bynnag, bydd eich cwsmeriaid yn awyddus i wybod ble maent yn sefyll o ran eu busnes â chi.

Bydd eich ymagwedd tuag at gwsmeriaid ar yr adeg dyngedfennol hon yn ddylanwadol iawn o ran diogelu eich perthnasoedd cyfredol, felly gall bod â chynllun cyfathrebu â chwsmeriaid ar waith eisoes fod o gymorth mawr, gan eich galluogi i gymryd camau priodol ar unwaith a rheoli disgwyliadau cwsmeriaid mewn modd trefnus a phroffesiynol.

Gall cyfathrebu'n effeithiol atal sibrydion neu gamwybodaeth bosibl. Yn niffyg gwybodaeth gyfoes, gallai gwsmeriaid neidio i gasgliadau a chymryd camau a fyddai'n niweidiol i'ch busnes. Er enghraifft, gallent newid archebion i gyflenwyr eraill pan, mewn gwirionedd, gallech fod wedi cyflawni gofynion eu harcheb oherwydd bod gennych stoc dros ben heb ei heffeithio neu drwy roi eich cynlluniau wrth gefn ar waith.

Beth i'w gynnwys mewn cynllun cyfathrebu â chwsmeriaid?

Efallai y bydd gennych amrywiaeth o "fannau cyswllt" lle mae'ch tîm yn rhyngweithio â thîm y cwsmer: gwerthu a rheoli cyfrifon â phrynwyr, technoleg i dechnegol, datblygu cynnyrch newydd â datblygwyr, y gadwyn gyflenwi a gosod archebion, gyrwyr â depos neu storfeydd, cyllid ag adrannau anfonebu. Mae'r we hon o ryngweithiadau yn golygu y gall gwybodaeth wrthgyferbyniol godi.

Bydd diffinio a rhannu'r "neges swyddogol" â'ch tîm yn sicrhau bod gwybodaeth gyson yn cael ei rhannu, yn hytrach na dyfalu neu gael dehongliad personol o ddigwyddiadau. Bydd yn atal gwahanol fersiynau o'r ffeithiau rhag cael eu dweud wrth wahanol adrannau o fewn sefydliad y cwsmer.

Bydd cynllun cyfathrebu effeithiol yn sicrhau bod pawb yn eich tîm yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau unigol, a bydd gan y tîm rheoli ddarlun clir o bwy sydd angen pa wybodaeth a sut y caiff ei chyfleu.

Your plan should include:

- Templedi y gallwch roi'r negeseuon penodol i'r digwyddiad y mae angen i chi eu cyflwyno ynddynt.
- Manylion am y bobl y mae angen iddynt gael a deall y negeseuon hynny.
- Aelodau enwebedig o'r tîm sy'n gyfrifol am reoli'r berthynas â chwsmeriaid.



Camau i greu eich cynllun cyfathrebu â chwsmeriaid

Mae'r ffeithlun isod yn awgrymu'r gyfres o gamau y dylech eu cymryd wrth greu'r cynlluniau cyfathrebu y byddwch yn eu rhoi ar waith pan fydd argyfwng yn codi:



Yn ogystal â chreu eich "templed cyfathrebu digwyddiad", byddwch yn elwa ar wneud rhai penderfyniadau allweddol cyn unrhyw ddigwyddiadau annisgwyl:

- **Pwy fydd yn gyfrifol am gyfathrebu â pha rai o'ch cwsmeriaid?**
  - Gallai hyn fod y rheolwr cyfrifon neu'r rheolwr gwerthu sy'n gofalu am y cwsmer hwnnw.
  - Meddyliwch am "fannau cyswllt" eraill â chwsmeriaid; er enghraifft, gallai staff y gadwyn gyflenwi, cyllid a thechnegol siarad â'r unigolion cyfatebol yn sefydliad y cwsmer a gallai gyrwyr sgwrsio yn y depos maent yn cludo nwyddau iddynt.
  - Mae bod â neges gyson gan bawb yn rhoi'r ymdeimlad bod y sefyllfa dan reolaeth gennych a gall feithrin hyder eich bod yn gallu cadw'r cwsmer hwnnw'n hapus.

- **Pa ddulliau cyfathrebu y dylid eu defnyddio?**
  - Efallai yr hoffech gyfathrebu'n wahanol â gwahanol gwsmeriaid.
  - Ar gyfer y cwsmeriaid pwysicaf, efallai y bydd galwad ffôn bersonol gennych chi i rywun ar lefel uchel yn y busnes yn rhoi'r sicrwydd mwyaf.
  - Yna, gallai hyn raeadru i lawr i'r perthnasoedd eraill rhwng unigolion y mae'ch tîm yn eu cynnal â chwsmeriaid.
  - Efallai y byddwch yn penderfynu bod cyfathrebu drwy'r e-bost yn ffordd o sicrhau eglurder a chysondeb o ran gwybodaeth; neu gellid defnyddio'r dull cyfathrebu hwn wrth i'r digwyddiad ddatblygu, i roi diweddariadau hollbwysig i gwsmeriaid.
  - Meddyliwch am beth allai'ch ymagwedd fod o ran sylw yn y cyfryngau cymdeithasol ynghylch y digwyddiad.
  - Penderfynwch a ddylech gyhoeddi datganiad i'r wasg i roi gwybod i'r gymuned ehangach am eich sefyllfa.
- **Beth ddylai staff ei ddweud wrth iddynt ryngweithio â chwsmeriaid?**
  - Bydd eich templed "gwybodaeth a chwestiynau disgwyliedig" sydd wedi'i baratoi ymlaen llaw yn galluogi'ch tîm i rheoli disgwyliadau cwsmeriaid yn effeithiol.
  - Meddyliwch am sut caiff cwsmeriaid eu diweddaru wrth i'r sefyllfa esblygu.
  - Meddyliwch am ba wybodaeth yr hoffech ei rhoi yn eich diweddariadau "swyddogol".
  - Penderfynwch ar gyfnodau cyfathrebu.
  - Penderfynwch pwy fydd yn cyfleu'r wybodaeth ddiweddaraf i gwsmeriaid.

Casglu manylion cyswllt

Gwnewch yn siŵr fod gennych fanylion cyswllt eich cwsmeriaid wrth law, hyd yn oed os nad ydych yn gallu mynd at eich safle a'ch systemau TG arferol. Gallech ofyn i'ch cwsmeriaid allweddol rannu eu manylion cyswllt "y tu allan i oriau" â chi a gofyn am eu hawdurdod i chi eu defnyddio mewn argyfwng.

Efallai y bydd y templed hwn, y gellir ei olygu, yn ddefnyddiol i chi.

Mae'n cynnwys cyfres o dabiau ar gyfer casglu manylion, gan gynnwys un ar gyfer eich cwsmeriaid lle gallwch nodi eich dull cyfathrebu dynodedig (y "pwy" a'r "sut") ar gyfer pob cwsmer.

Cliciwch yma am dempledi cyfathrebu brys â chwsmeriaid, y gellir eu golygu

Fel bob amser, dim ond os cânt eu diweddaru y mae'r rhestrau hyn yn ddefnyddiol, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn trefnu i ddiweddaru'r rhestr yn rheolaidd yn eich dyddiadur.

Amlygu eich ymagwedd sy'n ymwybodol o'r hinsawdd i gwsmeriaid

Nid oes rhaid i chi aros am ddigwyddiad hinsawdd annisgwyl i gyfleu eich ymagwedd sy'n ymwybodol o'r hinsawdd i'ch cwsmer. Wrth i'r hinsawdd ddod yn risg gynyddol i'r sector bwyd a diod, bydd sicrhau parhad busnes yn ffocws cynyddol i'ch cwsmeriaid. Bydd rhoi gwybod iddynt am y gwaith da rydych yn ei wneud tuag at gynllunio ar gyfer addasu i'r hinsawdd yn rhoi sicrwydd i gwsmeriaid y gallent fod â hyder yn eich busnes fel cyflenwr blaengar, rhagweithiol a chydnerth a fydd yn gallu cynnal cyflenwadau neu adfer yn gyflym.

Dylech achub ar y cyfle i gyflwyno a thynnu sylw at eich ymagwedd sy'n ymwybodol o'r hinsawdd mewn adolygiadau busnes, cyfarfodydd diweddaru a sesiynau cynllunio ar y cyd â'r cwsmeriaid presennol hynny rydych yn bwriadu ehangu'r busnes â nhw neu ddiogelu gwerthiannau cyfredol.

Defnyddiwch eich gwybodaeth am y cwsmer i ragweld eu pryderon posibl a dangos eich gwerth fel cyflenwr dewisol trwy'r gweithgareddau addas i'r hinsawdd rydych wedi ymgymryd â nhw. Trwy esbonio sut mae'ch dadansoddiad o risgiau'r hinsawdd a chamau gweithredu yn diogelu eu cadwyn gyflenwi, gallech bwysleisio eich safle fel cyflenwr gwerthfawr.

Gellir integreiddio'r gwaith o amlygu'r camau gweithredu rydych yn eu cymryd fel busnes i addasu a chynyddu cydnerthedd yn erbyn yr hinsawdd yn eich broliannau gwerthu i gwsmeriaid newydd. Trwy gynnwys y negeseuon allweddol am eich mesurau addasu i'r hinsawdd mewn modd cadarnhaol yn eich cyflwyniadau rhagarweiniol a'ch broliannau gwerthu i ddarpar gwsmeriaid, gallech fwynhau mantais gystadleuol dros gwmnïau eraill, nad ydynt wedi paratoi cystal, wrth feithrin perthnasoedd masnachu.

Lle bo'n briodol, efallai yr hoffech weithio ar y cyd â chwsmeriaid allweddol ar brosiectau sydd o ddiddordeb cyffredin hefyd, fel cynlluniau wrth gefn ar gyfer y gadwyn gyflenwi.

Byddwch yn gallu defnyddio'r wybodaeth yn yr Hyfforddiant Addasu i'r Hinsawdd a Chydnerthedd i baratoi cyflwyniadau a deunyddiau cyfathrebu eraill i gadarnhau manteision eich ymagwedd sy'n ymwybodol o'r hinsawdd i'ch cwsmeriaid.

Defnyddwyr a Newid Hinsawdd – Risgiau a chyfleoedd

Mae ymddygiad defnyddwyr yn newid wrth ymateb i newidiadau i'r hinsawdd ac, wrth i'r effeithiau gyflymu, gall cyfradd y newidiadau i anghenion a gofynion defnyddwyr gynyddu hefyd. A chithau'n fusnes sy'n ymwybodol o'r hinsawdd, mae gennych gyfle i deall sut gallai ymddygiad sy'n newid a dymuniadau newydd gan eich defnyddwyr presennol a'ch darpar ddefnyddwyr effeithio ar eich gwerthiannau.

- Pa risgiau ydych chi'n eu rhagweld i'ch symiau a'ch cyfran marchnad bresennol a sut gallwch chi addasu'n llwyddiannus?
- Sut gallai'ch arloesi cynnyrch a'ch negeseuon marchnata addasu i aros ar y blaen i'ch cystadleuwyr gyda syniadau sy'n apelio at anghenion cyfnewidiol defnyddwyr?

Mae nifer y ffordd y mae newid hinsawdd yn effeithio ar ddewisiadau defnyddwyr, ond mae dau brif faes i chi eu hystyried yn cynnwys:

Defnyddwyr yn ymateb ac yn addasu i effeithiau ffisegol newid hinsawdd a digwyddiadau'r tywydd

Defnyddwyr yn newid eu harferion prynu a bwyta oherwydd pryderon am newid hinsawdd

Dylanwadau'r hinsawdd ar ymddygiad defnyddwyr

Gall amodau tywydd fod yn ffactor allweddol yn ein dewisiadau bwyd a diod:

- Ymhle, pryd a beth rydym yn ei brynu.
- Sut rydym am ei baratoi.
- Ymhle, sut ac â phwy rydym yn bwyta'r cynhyrchion hyn.

Felly, os yw newid hinsawdd yn newid patrymau tywydd, nid yw'n syndod bod patrymau cymeriant yn newid, hefyd.

Tymhorau sy'n newid

Ar draws y DU, mae dros 400,000 o bobl yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn prosiect phenoleg gwyddoniaeth dinasyddion o'r enw Nature's Calendar ac yn olrhain eu harsylwadau am eu cwmpasoedd, fel pa bryd y mae planhigion yn blodeuo.

Mae'r prosiect hwn wedi dod i'r casgliad bod y gwanwyn bellach yn cyrraedd mis cyfan yn gynharach nag yn y 1980au[1]. Mae gan hyn y potensial i gynyddu galw defnyddwyr am gynhyrchion sy'n gysylltiedig â thywydd cynhesach a bwyta'n ysgafnach a lleihau'r galw am fwyd gaeafol, mwy sylweddol.

Os na fydd eich cynlluniau cynhyrchu a'ch targedau gwerthu yn ymateb yn briodol, gallech golli gwerthiannau mewn dwy ffordd:

- Colli cyfleoedd oherwydd nad oedd gennych gynhyrchion sy'n gysylltiedig â'r gwanwyn yn ddigon buan.
- Yr angen i ostwng prisiau neu ddileu stoc o gynhyrchion gaeafol pan fydd y galw wedi lleihau.

Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, yn hanesyddol, mae siopau wedi newid eu cynlluniau marchnata o gynhyrchion yr haf i fwyd a diod fwy hydrefol pan fydd y flwyddyn ysgol newydd yn dechrau, ddechrau mis Medi.

Fodd bynnag, mewn rhai blynyddoedd, rydym wedi cael tywydd cynhesach yn parhau'n hwyrach ym mis Medi. Er enghraifft, ym mis Medi 2023, profodd llawer o'r DU dymereddau dros 25°C, gan gynyddu gwerthiant cynhyrchion sy'n cael eu bwyta mewn tywydd cynnes a lleihau'r galw am eitemau hydrefol. Gall tywydd cynnes barhau tan fis Hydref a chyn hwyred â mis Tachwedd; cafodd Ceredigion y diwrnod poethaf a gofnodwyd erioed ar 1 Tachwedd 2015, gyda'r tymheredd yn cyrraedd 22.4°C.

Fodd bynnag, nid yw tywydd fel hyn yn sicr ac, ym mis Medi 2024, cawsom ddiwrnodau gwlyb a stormus ar draws llawer o dde Lloegr a Chymru. Mae hyn yn dangos, er mwyn gwella gwerthiannau, ei bod hi'n werth edrych yn ofalus ar ragolygon ar yr adegau hyn o'r flwyddyn pan mae "pwyntiau newid tymhorol". Gallai rhoi sylw manwl i ragolygon y tywydd sicrhau bod gennych y cymysgedd cywir o gynnyrch ar y silff neu ar gael ar-lein, a bod y cynhyrchion hyn yn cael eu marchnata'n briodol ar gyfer yr amodau tywydd cyffredin.



Mae'r newid i amser blodeuo cennin Pedr yma yng Nghymru yn un dangosydd yn unig o ddyfodiad cynharach amodau hinsawdd y gwanwyn. Awdur: Paul Ffynhonnell: adobe.stock

Dylech ystyried eich cymysgedd elw drwy gydol y flwyddyn, hefyd. Wrth i'r hinsawdd gynhesu, gallai sympiau'r cynhyrchion "tywydd cynnes" hyn gynyddu a dod yn rhan fwy o'r cymysgedd gwerthiannau cyffredinol. Trwy gynnal adolygiad proffidioldeb, gallech wirio ddwywaith a yw'r cynhyrchion sy'n gwerthu'n well mewn amodau cynhesach yn cael effaith gadarnhaol ar eich cymysgedd elw. Os nad ydynt, efallai y byddwch yn gweld bod elw cyffredinol yn cael ei erydu oni bai eich bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Gallai deall yr effeithiau proffidioldeb hyn fod yn arbennig o berthnasol os yw'r hinsawdd neu effeithiau eraill yn eich cadwyn gyflenwi yn achosi i brisiau godi neu amrywio mewn ffyrdd mwy afreolaidd oherwydd newidiadau tymhorol.

Mae cyfnewidioldeb cynyddol y tywydd a'r gwyriad o batrymau tymhorol blaenorol yn golygu bod seilio rhagolygon maint gwerthiannau ar werthiannau blynyddoedd blaenorol yn fwy heriol.

Felly, dylech ystyried dynodi'r dasg o fonitro rhybuddion tywydd a rhagolygon tymor canolig i dymor hwy i rywun yn eich tîm.

Cofrestrwch i gael Rhybuddion Tywydd drwy'r e-bost gan y Swyddfa Dywydd

Mae Swyddfa Dywydd y DU yn cynnig y cyfleuster i chi gofrestru i gael negeseuon e-bost sy'n rhoi rhybuddion tywydd.

Gwyliau gartref

Mae newid hinsawdd yn achosi cynnydd mewn tymereddau a digwyddiadau tywydd eithafol a all arwain at fwy o ddinasyddion y DU yn penderfyniadau cael "gwyliau gartref" a denu twristiaeth fewnol o wledydd eraill.

Mae Gwasanaeth Newid Hinsawdd Copernicus (CS3) yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn cefnogi polisïau addasu a lliniaru hinsawdd yr Undeb Ewropeaidd trwy gynnig "mynediad agored a di-dâl i ddata ac offerynnau hinsawdd ar sail y wyddoniaeth orau sydd ar gael"[2]. Mae ganddo wybodaeth a graffiau helaeth ar gael am dymereddau, dyodiad, tymereddau'r môr a digwyddiadau hinsawdd ar draws yr UE a'r DU.

Yn 2024, crybwyllodd fod cofnodion tymheredd Ewrop yn parhau i gyrraedd y rhai uchaf erioed ac mai haf 2024 oedd y cynhesaf a gofnodwyd yn Ewrop[3].

Mae'r graff isod yn dangos, dros y 15 mlynedd diwethaf, fel rydym wedi gweld tymereddau cyfartalog aer arwyneb ledled Ewrop yn codi dro ar ôl tro ym misoedd Mehefin, Gorffennaf ac Awst o gymharu â'r cyfartaledd o 1991-2020.

Yn ystod haf 2024, torrwyd y record blaenorol ar gyfer tymheredd yr aer, a gofnodwyd yn haf 2022, gan 0.2°C.



Daw hyn ar ôl sawl haf diweddar pan welsom ddigwyddiadau gwres eithafol ar draws llawer o'r cyrchfannau gwyliau poblogaidd, fel Sbaen, Portiwgal, yr Eidal, Ffrainc a Gwlad Groeg.

Er enghraifft, arweiniodd ton wres Cerberus at dymereddau'n codi ymhell dros 40°C ym mis Gorffennaf 2023[4]. Cafodd llawer o dde Ewrop rybuddion iechyd coch oherwydd gwres eithafol a stormydd ffyrnig, a achosodd lifogydd ac a arweiniodd at genllysg "o faint melonau canteloupe". Dioddefodd llawer o ranbarthau ddifrod storm eang a thanau gwyllt dinistriol[5].



Drought in Europe - December 2024 - 3rd ten-day period
EU, 2025

Yn 2024, gwelodd rhannau o Ewrop gyfnodau sylweddol o dywydd poeth yn ystod y tymor, gyda de-ddwyrain Ewrop yn profi hyd at 60% yn fwy o "ddiwrnodau cynnes" na'r cyfartaledd, gan achosi "straen gwres cryf".

Dyma ble y cyrhaeddodd y tymheredd uchaf "teimlo fel" dyddiol o leiaf 32°C am ryw ddau draean o gyfnod yr haf. Ar 66 diwrnod, dyma oedd y nifer fwyaf o ddiwrnodau 'straen gwres cryf' a gofnodwyd erioed o bell ffordd[6].

Parhaodd sychder ymhell i fis Rhagfyr 2024, fel mae'r map hwn gan Ganolfan Wyddoniaeth yr UE yn dangos[7].

Dywed Asiantaeth yr Amgylchedd yr UE y bu Ewrop yn profi peryglon naturiol cyson a difrifol yn gysylltiedig â'r tywydd a'r hinsawdd fel sychder, tanau coedwig, cyfnodau o dywydd poeth, stormydd a glaw trwm. Bydd newid hinsawdd yn gwneud y digwyddiadau hyn hyd yn oed yn fwy dwys a chyson[8].

Mae hyn oll yn awgrymu, er bod llawer o ddefnyddwyr Prydain wedi dewis mynd ar wyliau dramor yn y gorffennol er mwyn sicrhau eu bod yn mwynhau rhywfaint o heulwen a thywydd braf, y gallai'r eithafion hinsawdd mwyfwy cyson ac eang hyn (ynghyd ag awydd i leihau ôl troed carbon) ysgogi mwy o dwristiaeth ddomestig.

Gallai ein tywydd cymharol oerach ddenu mwy o ymwelwyr tramor i'r DU, lle gellid ystyried bod yr hinsawdd yn fwy deniadol.

A allai mwy o ymwelwyr yn dod i Gymru neu'r DU yn ehangach, neu'n aros yma, gyflwyno mwy o gyfleoedd gwerthu ar gyfer eich brandiau a'ch cynhyrchion?



Diogelu Defnyddwyr a'ch Enw Da

Risgiau cynyddol o weddillion a halogion mewn deunyddiau crai

Mae newid hinsawdd yn effeithio ar ffermio cnydau ledled y byd, er enghraifft:

- Mae cyfnodau maith o sychder yn arwain at ddefnyddio mwy o ddyfrhau. Mae hyn yn cynyddu'r risg o bathogenau'n halogi dŵr dyfrhau ac yn cael eu trosglwyddo i gnydau. Heb brofion ac ymyriadau digonol, gall hyn achosi afiechydon sy'n cael eu cludo gan fwyd i'r bobl sy'n bwyta bwydydd halogedig.
- Mae erydiad a dirywiad pridd yn arwain at fwy o ddefnydd o dail a gwrteithiau. Gall tail gynnwys micro-organebau fel E. coli O157, Salmonela, Listeria a Campylobacter a halogi cnydau, yn enwedig ffrwythau a llysiau sy'n barod i'w bwyta.
- Mae mwy o garbon deuocsid (CO^2) yn yr atmosffer yn galluogi chwyn i drechu cnydau, gan arwain at fwy o ddefnydd o chwynladdwyr. Gall hyn arwain at fwy o risg o weddillion plaladdwyr mewn cnydau bwyd. Mae angen monitro'r cnydau hyn yn ofalus er mwyn sicrhau bod gweddillion yn aros islaw'r lefelau gweddillion uchaf (MRL), y mae pwyllgorau gwyddonol arbenigol wedi barnu eu bod yn ddiogel i'w bwyta.
- Gall llifogydd arwain at heintiau ffwngaidd mewn cnydau, sy'n golygu bod angen defnyddio mwy o driniaethau lladd ffwng. Er enghraifft, arweiniodd y tywydd gwlyb yn 2023/2024 at broblemau ffwngaidd difrifol ar gyfer ffermwyr nionod yn y DU, gan leihau cynnyrch ac ansawdd cnydau.
- Mae newidiadau hinsawdd hefyd yn dod â phlâu a chlefydau newydd i ardaloedd lle nad ydynt wedi gallu ffynnu o'r blaen. Mae hyn yn arwain at ddefnydd cynyddol ac amrywiol o blaladdwyr a thriniaethau cemegol eraill, gyda'r risgiau gweddillion sydd wedi'u hamlinellu uchod.

Mae gan y tueddiadau hyn oblygiadau negyddol ar gyfer yr amgylchedd naturiol, fel niweidio ansawdd aer, colli microbau pridd, halogi cyrsiau dŵr a bygythiadau i fioamrywiaeth. Gallent hefyd gynyddu costau cynhyrchu oherwydd costau mewnbwn uwch.

Mae potensial i lefelau uwch a mathau newydd o weddillion a halogion fod yn bresennol yn eich deunyddiau crai. Felly, efallai y bydd angen cynyddu amlder ac ehangu cwmpas eich gweithdrefnau profi er mwyn sicrhau diogelwch bwyd eich deunyddiau crai sy'n dod i mewn a'r dŵr sy'n cael ei ddefnyddio wrth gynhyrchu.

Nid oes unrhyw fusnes bwyd a diod byth eisiau peryglu iechyd defnyddwyr na galw cynnyrch yn ôl, a all fod yn ddrud a niweidio eich enw da, felly gall addasu eich protocolau monitro a dilysu mewnol yn sgil risgiau newid hinsawdd fel y rhain fod yn fuddsoddiad gwerthfawr dros ben.

Bygythiadau i uniondeb maethol

Dros y degawd diwethaf, casglwyd tystiolaeth gynyddol bod lefelau CO^2 cynyddol yn cael effaith uniongyrchol ar gemeg a bioleg planhigion. Mae gwyddonwyr yn tynnu sylw at y ffaith bod hyn yn peri bygythiad parhaus i uniondeb maethol bwydydd mewn cadwyni cyflenwi dynol ac anifeiliaid. Er bod hwn yn faes ymchwil academaidd gweithredol o hyd, mae astudiaethau hyd yn hyn yn awgrymu gostyngiadau sy'n gysylltiedig â CO^2 mewn lefelau protein a mwynau mewn cnydau[9].

Mae'r rhan fwyaf o gynhyrchion bwyd wedi'u pecynnu sy'n cael eu gwerthu i ddefnyddwyr yn cynnwys panel maethol gorfodol ac mae llawer o gynhyrchion yn gwneud honiadau maethol.

Os yw eich dewis cynnyrch a'ch brand yn cynnwys honiadau maethol, mae hwn yn faes y gallai fod angen i chi ei fonitro'n fanylach yn y dyfodol. Rhaid i chi sicrhau bod fformwleiddiadau eich cynnyrch yn parhau i ddarparu'r gwerthoedd maethol rydych yn eu cyfleu i ddefnyddwyr. Gallai methu gwneud hynny arwain at beidio â chydymffurfio â safonau cyfreithiol a thanseilio uniondeb eich brand.

Gallai lefelau maeth gostyngol mewn prif gnydau bwyd ddod â chyfleoedd ar gyfer arloesi cynnyrch, hefyd. Wrth i broffiliau maethol cynhenid ostwng mewn llawer o gnydau, gall defnyddwyr gael eu denu'n gynyddol at gynhyrchion sydd wedi'u gwella neu eu cryfhau'n faethol a bod yn barod i dalu'r costau uwch sy'n gysylltiedig â hynny.

Yn groes i hyn, wrth i newid hinsawdd esblygu, efallai y daw cyfle i dyfu cnydau'n effeithiol mewn ardaloedd nad oeddent yn ymarferol o'r blaen. Mae ymchwil eisoes yn mynd rhagddi â chnydau fel ffacbys a chorbys yn y DU, ond mae gwyddonwyr wedi rhagweld, erbyn 2080, os bydd cynhesu byd-eang yn parhau, y gallai hyd yn oed cnydau sy'n fwy cysylltiedig ag ardal Môr y Canoldir, fel orennau, ddod yn ymarferol yn y DU[10].

Gallai cynnwys y mathau hyn o bynciau ymchwil yn eich gweithgareddau sganio'r gorwel amlygu cyfleoedd yn ogystal â risgiau i'ch busnes.

Cyfleoedd newydd i arloesi

Mae cyfleoedd ar gyfer arloesi cynnyrch yn codi wrth i ddefnyddwyr edrych ar gwmnïau bwyd a diod i'w helpu i gyfrannu at liniaru newid hinsawdd. Er enghraifft, mae ymchwil ddiweddar a gynhaliwyd yn fyd-eang gan EY yn dangos bod defnyddwyr yn y DU yn canolbwyntio'n benodol ar faterion yn ymwneud a gwastraff bwyd a phecynnu[11].

Yn fwyfwy, mae defnyddwyr yn ceisio lleihau effeithiau negyddol eu hymddygiad, eu dewisiadau treuliant a'u harferion siopa ar yr amgylchedd. Mae llawer ohonynt yn dod yn fwy ymwybodol o sut mae'r bwyd a diod y maen nhw a'u teuluoedd yn eu defnyddio yn effeithio ar newid hinsawdd. Wrth i fwy o ddefnyddwyr addasu eu hymddygiad prynu, mae'n hanfodol ymgorffori'r pryderon hyn ynghylch newid hinsawdd yn eich arloesi, eich strategaethau cynnyrch a'ch polisïau cyrchu.



Defnyddio mewnwelediad y farchnad

Gallwch ddefnyddio'r wybodaeth o'r Hyfforddiant Addasu i'r Hinsawdd a Chydnerthedd, ynghyd â'r ffynonellau mewnwelediad defnyddwyr a awgrymwyd yn yr adran sganio'r gorwel yn effeithiol ym Modiwl 5, i ddeall yn well sut mae'ch cwsmeriaid presennol yn addasu eu hymddygiad siopa neu fwyta. Gall y wybodaeth hon eich helpu i dargedu segmentau cwsmeriaid newydd i gynyddu eich gwerthiannau a'ch elw.

Mae sawl astudiaeth ymchwil marchnata ddiweddar wedi darparu tystiolaeth ategol o'r duedd hon, gan fesur sut mae penderfyniadau prynu defnyddwyr yn cael eu hysgogi'n fwyfwy gan eu pryderon ynghylch newid hinsawdd.

Roedd arolwg 2023 Euromonitor o dros 1,000 o ddefnyddwyr yn y DU yn dangos bod 59% ohonynt yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn poeni am newid hinsawdd, gyda'r un nifer yn datgan eu bod yn "ceisio cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd trwy fy ngweithredoedd bob dydd".

Datgelodd yr arolwg hefyd fod defnyddwyr yn y DU yn fwy tebygol na'r cyfartaledd byd-eang o ailgylchu eitemau, ceisio lleihau gwastraff bwyd, defnyddio llai o ddŵr, lleihau'r defnydd o blastigion a lleihau eu hallyriadau carbon[12].



Source: Euromonitor Voice of the Consumer: Lifestyles Survey, fielded January-February 2023



Source: Euromonitor Voice of the Consumer: Lifestyles Survey, fielded January-February 2023
Note: Only showing results from respondents who try to have a positive impact on the environment

Canran y defnyddwyr sy'n credu bod angen i gwmnïau ddarparu atebion i newid hinsawdd



Yn yr un modd, mae ymchwil ddiweddar a gynhaliwyd yn fyd-eang gan EY yn dangos bod defnyddwyr yn disgwyl i gwmnïau eu helpu i gyfrannu at liniaru newid hinsawdd; mae hyn yn ategu'r dystiolaeth bod defnyddwyr yn y DU yn canolbwyntio'n benodol ar faterion yn ymwneud a gwastraff bwyd a phecynnu[13].

"Amlygodd arolwg Euromonitor a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023 fod defnyddwyr yn chwilio am 'gynaliadwyedd fforddiadwy'. Daeth yr arolwg i'r casgliad bod rhwng 20% a 25% o ddefnyddwyr yn Ewrop, y cyfeirir atynt fel 'Gwarwyr Gwyrdd', yn fodlon talu mwy am gynhyrchion cynaliadwy ar hyn o bryd. Mae'r parodrwydd hwn ar ei isaf ymhlith Cenhedlaeth Z, sydd â phryderon cryf ynghylch yr hinsawdd ond lefelau incwm is, ac ar ei uchaf ymhlith defnyddwyr hŷn, gan gyrraedd uchafbwynt ymhlith Mileniaid[14]."

Trwy edrych yn fanwl ar yr hyn sy'n cymell y rhai sy'n cael eu galw'n "Warwyr Gwyrdd" yn y DU, gallwn weld bod rhai priodoleddau'n creu mwy o barodrwydd i dalu premiwm na rhai eraill.



Mae hyn yn dangos nad yw honiadau pob cynnyrch sy'n ymwybodol o'r hinsawdd yn gyfartal ac y dylid bod yn ofalus i ddeall beth sy'n ychwanegu gwerth gwirioneddol i'ch cwsmeriaid targed penodol cyn dewis gwerthoedd eich brand. Gallai rhai priodoleddau cynnyrch ychwanegu costau ond ni chânt eu hystyried, hyd yn oed gan y defnyddwyr mwyaf brwdfrydig, fel rhai sy'n ychwanegu gwerth.

Ymgysylltu â ðefnyðdwyr sy'n ymwyboðol o'r hinsawðð

Lleihau gwastraff bwyd

Yn ei hadroddiad ym mis Tachwedd 2023, amlygodd WRAP (Rhaglen Gweithredu Gwastraff ac Adnoddau) fod tua 10.7 miliwn o dunelli, sef hyd at chwarter yr holl fwyd sy'n cael ei gynhyrchu yn y DU, ei wastraffu ar draws y gadwyn gyflenwi bwyd. Mae 60% o'r cyfanswm hwn (sy'n werth £17.0 biliwn) yn y cartref[15].

Cyfanswm y gwastraff bwyd sy'n codi yn y DU, fesul sector, cyfanswm = tua 10.7 miliwn o dunelli



Atgynhyrchwyd y graff â chaniatâd caredig WRAP o'i hadroddiad "Food surplus and waste in the UK – key facts".

Mae arloesi i helpu defnyddwyr i leihau gwastraff bwyd gartref yn cynnig y budd dwbl o fodloni eu hawydd i fod yn ymwybodol o'r hinsawdd a hefyd mynd i'r afael â phryderon ynghylch costau byw trwy sicrhau eu bod yn cael gwerth llawn yr hyn y maent yn ei brynu.

Caiff yr angen i weithredu i leihau gwastraff bwyd ei gefnogi ymhellach gan ddata ONS (Swyddfa Ystadegau Gwladol y DU), sy'n dangos bod mwy o deuluoedd yn byw mewn aelwydydd llai.

- Yn 2022, am y tro cyntaf erioed, roedd nifer yr aelwydydd yn y DU heb blant yn fwy na nifer y teuluoedd â phlant dibynnol.
- Yn 2023, aelwydydd ag un unigolyn (y rhai sy'n byw ar eu pen eu hunain) oedd yr ail fath mwyaf cyffredin o aelwyd, gan gyfrif am bron i 1 o bob 3 neu 8.4 miliwn o aelwydydd yn y DU[16].
- Mae 30% o aelwydydd yng Nghymru yn bobl sy'n byw ar eu pen eu hunain.

Mae hyn yn awgrymu y gallai aelwydydd lle mae llai o bobl yn bwyta gartref fod yn chwilio am ffyrdd i leihau gwastraff bwyd. Felly, efallai y gallech ystyried sut gall eich busnes ddiogelu a chynyddu gwerthiannau trwy helpu cwsmeriaid i gyflawni eu nod o leihau gwastraff bwyd.

Gallech gynnal sesiwn syniadau â'ch tîm i ganolbwyntio ar gyfleoedd sy'n ymwybodol o'r hinsawdd ar gyfer cynhyrchion newydd neu wedi'u hailfformwleiddio neu ffyrdd newydd o'u lleoli a'u cyflwyno er mwyn cyflawni deilliannau gwell o ran gwastraff bwyd. Dyma rai enghreifftiau i chi ddechrau arni:



Dewisiadau pecynnu

Yn ogystal â helpu defnyddwyr sy'n ymwybodol o'r hinsawdd i atal gwastraff bwyd, gall eich dewis o ddeunydd pacio ddylanwadu ar eu tueddiad i brynu eich cynhyrchiol. Mae deunydd pacio y gellir ei ailgylchu neu ei ailddefnyddio yn apelio at y defnyddwyr hyn.

Mae Cymru'n arweinydd byd-eang o ran ailgylchu (3ydd yn y byd). Ym mis Rhagfyr 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fod cyfraddau ailgylchu trefol wedi cyrraedd 65.7%, gyda tharged newydd o 70% wedi'i osod ar gyfer 2024/25; sef lefel y mae Abertawe, Sir Benfro, Pen-y-bont ar Ogwr, Ceredigion a Sir Fynwy wedi'i chyflawni eisoes[17].

Bydd deunydd pacio sy'n helpu deiliaid tai i ailgylchu mwy o ddeunyddiau gwastraff yn cael ei groesawu gan lywodraethau a defnyddwyr, sy'n teimlo mai ailgylchu yw un o'r camau allweddol y gallent eu cymryd i gyfrannu'n gadarnhaol at yr argyfwng hinsawdd.

Arloesi cynyddrannol

Mae newid hinsawdd yn newid pa gnydau y gellir eu tyfu mewn gwahanol ranbarthau o'r byd ac yn cael effaith negyddol ar gynnyrch ac elw i ffermwyr. Mae genetegwyr planhigion a garddwyr yn gweithio i fridio cnydau sy'n fwy goddefgar i'r amodau newydd, a gallai hyn olygu bod angen i ddefnyddwyr ddod i arfer â blasau a gweadau newydd, mwy amrywiol neu newidiedig.

Mae defnyddwyr yn ddrwg-enwog am fod yn geidwadol o ran newid yr hyn y maent yn ei fwyta, felly efallai bydd angen eu cymell i fwyta cynhyrchion sydd â chynhwysion sy'n fwy ymwybodol o'r hinsawdd.

A chithau'n weithgynhyrchwyr bwyd a diod, gallwch gefnogi'r broses hon trwy gyflwyno cynhwysion newydd mewn fformatau cyfarwydd ac apelgar. Trwy efelychu nodweddion poblogaidd â deunyddiau crai newydd a defnyddio mewnwelediadau ac adborth defnyddwyr, gallwch dywys pobl yn araf tuag at ddewisiadau dietegol mwy cynaliadwy.

Osgoi gwyrddgalchu

Ym mis Ionawr 2023, cyhoeddodd Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd y DU (CMA) fenter i graffu ar honiadau 'gwyrdd' ar labeli cynhyrchion bwyd a diod er mwyn mynd i'r afael â gwyrddgalchu posibl[18].

Dywedodd Sarah Cardell, prif weithredwr CMA: "Mae ein gwaith hyd yn hyn wedi dangos y gallai gwyrddgalchu fod yn digwydd yn y sector hwn a byddwn yn craffu ar gwmnïau mawr a bach i weld a yw eu honiadau amgylcheddol yn gredadwy. Mae nawr yn amser da i fusnesau adolygu eu harferion a gwneud yn siŵr eu bod yn gweithredu o fewn y gyfraith."

Y ffactor hollbwysig yw bod rhaid i chi fod â thystiolaeth gadarn i ategu unrhyw honiadau a wnewch sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd neu gynaliadwyedd. Bydd hyn yn amddiffyn eich sefyllfa gyfreithiol ac yn sicrhau eich bod yn cynnal enw da â defnyddwyr.

Mae mwy o wybodaeth am god Honiadau Gwyrdd CMA ym Modiwl 6: Ystyriaethau Ariannol a Chyfreithiol.

CO2 yn mynd i mewn i'r atmosffer.
Awdur: martin33 / stock.adobe.com

Myfyrdodau Terfynol

Cadw ffocws parhaus ar faterion sy'n ymwneud â'r hinsawdd

Un myfyrdod i'w rannu wrth i ni nesáu at ddiwedd y cwrs hyfforddiant hwn yw nad yw'r gweithgareddau hyn yn rhywbeth y dylech chi eu gwneud unwaith ac anghofio amdanynt!

Bydd y risgiau a'r cyfleoedd hinsawdd rydym wedi'u harchwilio yn parhau i esblygu. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar y buddion rydych wedi'u cyflawni, dylech gadw ffocws parhaus ac ymagwedd sy'n ymwybodol o'r hinsawdd yn eich busnes.

Bwriad yr hyfforddiant hwn yw dangos y bydd eich busnes yn magu cydnerthedd trwy feithrin diwylliant sy'n gall o ran yr hinsawdd. Trwy ddeall goblygiadau newid hinsawdd ac integreiddio penderfyniadau a chynllunio gwybodus yn llyfn yn eich arferion dyddiol a'ch strategaeth hirdymor, gall eich holl weithgareddau busnes elwa.

Mae adolygiadau rheolaidd yn hanfodol er mwyn cynnal y manteision hyn ac mae templed y gellir ei olygu a fydd yn eich helpu i gadw golwg a phenderfynu ar yr amserlen ddilynol ar gyfer eich gweithgareddau sy'n ymwybodol o'r hinsawdd.

Cliciwch yma am amserlen adolygu addasiadau hinsawdd y gellir ei golygu

Cyflawni sector gweithgynhyrchu bwyd a diod yng Nghymru sy'n ymwybodol o'r hinsawdd ac yn gydnerth

Bwriad yr hyfforddiant hwn yw tynnu sylw at yr heriau gwirioneddol a chyfredol y mae newid hinsawdd yn eu hachosi i bob un ohonom yng Nghymru.

Er y gallai ymdrechion lliniaru cydlynol presennol arafu newid hinsawdd a, gyda lwc, lleihau maint a dwyster y canlyniadau negyddol, yn anffodus mae llawer o effeithiau niweidiol cynhesu byd-eang eisoes wedi'u hymwreiddio, hyd y gellir rhagweld.

Gallai delio â'r posibilrwydd hwn ymddangos yn frawychus ac yn llethol. Ni all unrhyw unigolyn bennu'r tywydd nac atal lefelau'r môr rhag codi ac atal erydiad arfordirol, ond gall busnesau bwyd a diod fod yn rhagweithiol wrth gymryd camau gwybodus ac ystyriol i achub y blaen ac addasu i'r heriau yn gysylltiedig â'r hinsawdd sydd o'n blaenau.

Gweledigaeth yr hyfforddiant hen yw cyfrannu at Gymru gydnerth sy'n ymwybodol o'r hinsawdd trwy gynnig syniadau ymarferol a chamau realistig y gall busnesau gweithgynhyrchu bwyd a diod eu cymryd i baratoi ar gyfer dyfodol ansicr.

Trwy ddefnyddio'r wybodaeth, yr offer, y templedi a'r technegau rheoli i ymgymryd â'r gweithgareddau awgrymedig, bydd eich busnes yn fwy cydnerth i ddigwyddiadau annisgwyl sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a heriau busnes eraill, ac mewn sefyllfa gryfach i adfer ar ôl digwyddiadau heriol a chystadlu'n effeithiol yn yr hyn y mae pob un ohonom yn gwybod ei fod yn sector anodd iawn o'r economi.

Ein nod fu eich cefnogi i asesu risgiau, nodi a blaenoriaethu camau gweithredu cymesur a meithrin eich cydnerthedd yn wyneb y bygythiadau cynyddol sy'n cael eu hachosi gan newid hinsawdd. Gobeithiwn fod y wybodaeth a'r adnoddau a ddarparwyd yn y cwrs hyfforddiant hwn wedi ysgogi'r meddwl ac wedi bod yn ddefnyddiol. Dymunwn yn dda i chi ar eich taith sy'n ymwybodol o'r hinsawdd.

Cyfeiriadau

[1] New Scientist: UK's spring flowers are blooming a month early due to climate change: 2 Chwefror 2022.

[2] Copernicus Climate Change Service (C3S): About us

[3] Copernicus Climate Change Service (C3S): C3S seasonal lookback: summer 2024

[4] HuffPost: What We Know About the Cerberus Heatwave Sweeping Southern Europe: 13 Gorffennaf 2023

[5] The Washington Post: Violent storms tear through Europe with 'gargantuan' hail in Italy: 25 Gorffennaf 2023

[6] Copernicus Climate Change Service (C3S): C3S seasonal lookback: summer 2024

[7] Canolfan Wyddoniaeth yr UE: Drought conditions in Europe in late December 2024

[8] Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop: Extreme weather: floods, droughts and heatwaves: 25 Hydref 2023

[9] Ziska LH: Rising Carbon Dioxide and Global Nutrition: Evidence and Action Needed: Ebrill 2022

[10] Prifysgol Dwyrain Anglia: Scientists predict what will be top of the crops by 2080 due to climate change 24 Ionawr 2025

[11] EY: EY Future Consumer Index: when talk turns into action, be set for change: 9 Tachwedd 2023

[12] Euromonitor: Consumer Values and Behaviour in the UK: Mai 2023

[13] EY: EY Future Consumer Index: when talk turns into action, be set for change: 9 Tachwedd 2023

[14] Euromonitor: Megatrends: Understanding Sustainable Consumers 2023: Rhagfyr 2023

[15] WRAP: Food Surplus and Waste in the UK Key Facts: Tachwedd 2023

[16] ONS (Swyddfa Ystadegau Gwladol): Families and households in the UK: 2023: 8 Mai 2024

[17] Llywodraeth Cymru: Ystadegau gwastraff ac ailgylchu newydd: 7 Rhagfyr 2023

[18] Llywodraeth y DU: CMA to scrutinise 'green' claims in sales of household essentials: 26 Ionawr 2023

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y cyhoeddiad hwn yn gywir ac yn gyfredol ar adeg ysgrifennu. Ni allwn gymryd cyfrifoldeb am ddolenni i wefannau allanol a allai fod wedi torri dros amser.

Gorffenaf 2025